

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

nos Fawrth, Mai 8fed, 2012

Presennol: Huw Roberts (Cadeirydd), Huw Antur, Catrin Roberts, Hywel G Evans, Arwel LL Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Ian Trow, Bethan Williams,

Alan Evans, Bethan Edwards, Lis Puw

Wrth gymryd y Gadair, diolchodd Huw Roberts yn gynnes iawn i'w ragflaenydd, Catrin Roberts, am lywyddu mor ffeithiol yn ystod y flwyddyn. Estynnodd groeso cynnes iawn i'r Cynghorwyr newydd a diolchodd i Mr Hywel Evans am ei gyfraniad gwerthfawr yn ystod ei dymor fel Cynghorydd.

1070 Ymddiheuriadau: Beryl H Griffiths Rhodri P Jones

1071 Nid oedd angen i neb ddatgan buddiant

1072 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Ebrill 6ed 2012

1073 Materion yn codi o gyfarfod mis Ebrill:

1073.v Maesypanyd

Croesawodd y Cadeirydd PC Dylan Jones o'r Heddlu i'r cyfarfod i drafod trafferthion ym Maesypanyd. Amlinellwyd yr hyn a drafodwyd mewn cyfarfod buddiol iawn rhwng Arwel LL Jones a'r Clerc â Chartrefi Cymunedol Gwynedd yn ddiweddar. Mae pryderon trigolion yn ymwneud â chŵn afreolus a baw cwn, sŵn yn ystod oriau anghymdeithasol, ac amheuaeth o dor-cyfraith.

Dywedodd PC Jones fod yr Heddlu yn cydweithio'n agos gyda Chartrefi Cymunedol Gwynedd ac yn ymwybodol o bryderon trigolion. Ei neges glir a phendant oedd ei bod yn bwysig bod pobl yn ffonio i fynegi eu pryderon. Yn ogystal â ffonio Cartrefi Cymunedol Gwynedd (**0300 123 8084**), mae angen hefyd ffonio'r Heddlu (**101**) neu Crimestoppers. Nid oes rhaid gadael eich enw. Ar y llaw arall, gellid rhoi enw ond gofyn am gyfweiliad ffôn yn hytrach nag ymweliad cartref. Nid oes disgwyl i aelodau o'r gymuned fod yn berchen ar dystiolaeth gadarn, ond mae'n bwysig ffonio gyda chwyn neu amheuaeth.

Soniwyd hefyd am bryderon eraill am dorri cyfraith yn yr ardal. Hefyd tynnwyd ei sylw at oryrru ar hyd y tyrpeg rhwng y ddwy arwydd 40. Addawodd y byddai'r Heddlu yn monitro'r sefyllfa.

Dywedodd PC Jones ei fod wedi derbyn sylwadau ar leihad ym mhresenoldeb yr Heddlu ym Mhenllyn, ond pwysleisiodd os nad ydyw pobl yn rhoi gwybod i'r Heddlu am eu pryderon trwy alwadau ffôn, yna mae'n ymddangos fel nad oes problemau yn bodoli yn yr ardal.

Diolchodd y Cadeirydd yn gynnes iawn iddo am ei gyfraniad, ac addawodd PC Jones fyddai aelod o'r Heddlu yn ceisio mynychu cyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Gwnaeth Mr Arwel Lloyd Jones y pwynt bod fflatiau Maesypanyd ar gael i bobl o bob oed, nid dim ond yr henoed fel cynt. Anogodd trigolion yr ardal sy'n dymuno byw'n annibynnol i lenwi ffurflen gais gan Gartrefi Cymunedol Gwynedd er mwyn iddynt fod ar y rhestr aros.

1073.i Pwmp y Llan – mae'r tywydd gwael wedi rhwystro i'r gwaith gael ei wneud hyd yn hyn, ond mae mewn llaw.

1073.ii Hysbysfwrdd y Llan - adroddodd Mr Arwel Lloyd Jones ei fod yn parhau i dderbyn dyfynbrisiau ac y bydd y sefyllfa'n gliriach erbyn y cyfarfod nesaf.

Gweithredu: Mr Arwel Lloyd Jones

1073.iii Cynlluniau'r toiledau - derbyniwyd ymateb o'r diwedd o'r Llywodraeth, diolch i Dafydd Elis Thomas. Cytunwyd i gynnig 23 neu 22 o Fai am 5.00 o'r gloch i David Hall ar gyfer cyfarfod (Huw Antur, Alan Evans, Karl Jones, Swyddog Ariannol, Clerc)

1073.iv Maen Llew – diolchwyd i Mr Karl Jones am gyrchu'r llechen ac am ei gosod yn ei lle.

Gweithredu: Karl Jones a Huw Antur

Datganwyd hefyd fod Mr Dei John Jones wedi cyfrannu pren er mwyn trwsio'r fainc ar lwybr yr Aran.

Gweithredu: Clerc i anfon at Mr Jones i ddiolch yn fawr iddo am ei gyfraniad.

1074 Gohebiaeth:

1.Gwynedd: Derbyniwyd Rhaglen waith Mis Mai

2.Parc Cenedlaethol Eryri - ystyried:

- NP5/71/T192A Sgubor Llwyn Piod - diwygio Amod ar ganiatâd Cynllunio. Cytunwyd i beidio â gwneud sylwadau ar y cais hwn.
 - NP5/71/T19L Estyniad Coed y Pry. Cytunwyd i beidio â gwneud sylwadau ar y cais hwn
- Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd
- i godi to dros storfa slyri Dolfach
 - i adeiladu 2 estyniad i Ddrws y Nant

3.Un Llais Cymru: Enwebwyd y Cadeirydd fel cynrychiolydd i'r Pwyllgor Ardal

4. Arall:

- Enwebwyd Catrin Roberts a Rhodri Jones i gynrychioli'r Cyngor ar Bwyllgor Blynyddol y Neuadd Bentref 15/5/12
- Derbyniwyd cylchgrawn "Chwarae Dros Gymru"

1075 Materion ariannol:

- Rhoddodd y Swyddog Ariannol adroddiad ar y sefyllfa ariannol bresennol
- Ystyriwyd gwerth asedau'r Cyngor a chytunwyd i ofyn am brisiad o werth Cwt yr Hers

Gweithredu: Clerc

- Derbyniwyd y Praesept

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cytunwyd i dalu biliau I B Williams Llanbrynmair, Un Llais Cymru am Hyfforddiant, Ymgwymerwyr

- iv. Derbyniwyd derbynneb Un Llais Cymru am dâl aelodaeth
- v. Ystyriwyd y dyfyniad Yswiriant ac awdurdodwyd y Swyddog Ariannol i holi am brisiau eraill erbyn cyfarfod Mehefin.
- vi. Mae cofrestru'r Cyngor fel Cyflogwr yn fater sy'n parhau i dderbyn sylw

1076 Partneriaeth Penllyn: Derbyniwyd Adroddiad gan y Cynrychiolwyr: Mae'r Bartneriaeth yn symud ymlaen a disgwylir cyflogi ail berson i sicrhau bod gwaith ymarferol newydd yn cael ei brisio a'i wneud. Hefyd mae'r Bartneriaeth wedi gwneud cais i Gyngor Gwynedd i gael ei hystyried fel Fforwm Ardal. Mae'r Ganolfan Alw arfaethedig yn Y Bala yn symud ymlaen; mae'r holiadur cymunedol wedi ei chwblhau ac yn dangos bod galw am ganolfan o'r fath. Mae Swyddogion o Gyngor Gwynedd yn trafod gyda'r Bartneriaeth sut i gydlynu datblygiadau yn Y Bala, gan gynnwys yr Ysgol Gydol Oes.

Bydd y Clerc yn amlinellu maes gwaith y Cyngor a chefnidir Partneriaeth Penllyn ar gyfer y Cynghorwyr newydd.

Gweithredu: Clerc

1077 Bydd Syrfewyr o'r Gofrestra Tir yn edrych ar y fynwent newydd. Cytunwyd i ofyn i'r contractwr am bris ar gyfer clirio mwsogl o'r llwybrau

Gweithredu: Arwel Lloyd Jones

1078 Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, nid ydyw "Unrhyw Fater Arall" yn ymddangos bellach ar yr Agenda. Os dymuna unrhyw Gynghorwr godi mater arall, mae angen hysbysu'r Clerc o leiaf 7 niwrnod cyn y cyfarfod nesaf er mwyn i'r mater cael ei gynnwys ar yr Agenda - oni bai ei fod yn fater wirioneddol brys.

1079 Mater Brys

Cafwyd hanes grŵp o ddwsin o bobl ifanc diert meddw yn aflonyddu ar heddwch y pentref nos Sadwrn Gŵyl y Banc Calan Mai. Ymwelodd yr Heddlu ac mae perchennog maes gweryslla Bwch yn Uchaf wedi ymddiheuro i aelod o'r Cyngor am y drafferth a fu. Dywed ei fod am dderbyn cyngor y Cynghorydd a cheisio rheoli gwerysllwyr yn well trwy beidio â chaniatáu grwpiau o bobl ifanc i wersylla. Mae hefyd wedi cytuno i gyfarfod gyda chynrychiolaeth o'r Cyngor (Huw Antur, Alan Evans, Karl Jones a'r Clerc).

Cytunodd y Cyngor i ysgrifennu at Y Parc Cenedlaethol i ofyn beth oedd canlyniad eu cais am wybodaeth gan drigolion Llanuwchllyn ar y cynnydd diweddar yn nefnydd y maes gweryslla.

Gweithredu: Huw Antur, Clerc